Rhifyn Tachwedd 2019.qxp_Layout 1 15/10/2019 11:55 Page 1

YR ANGOR
PAPUR CYMRY GLANNAU MERSI A MANCEINION
'ANGORWYD YN NIWYLLIANT EIN CENEDL'

CYF. 41. RHIF 6 TACHWEDD 2019 50c

# Llwyddiant Cystadleuaeth Golff Cymry Lerpwl



*John Lyons gyda'r Nyrsus Admiral*



*Kath Lewis Jones a Beryl Williams*



*Tîm buddugol y Golff*



*Geraint Jones a Beryl Williams*



*Judith Davies a Beryl*
*(gweler yr adroddiad ar dudalen 8)*
*Ffotograffydd: Sara Fielding*



*John Hussey a Chris Harrison – enillwyr eraill*

Rhifyn Tachwedd 2019.qxp_Layout 1 15/10/2019 11:55 Page 2

Golygyddol

# *Dechrau Canu, Dechrau Canmol*

*- gan D. Ben Rees*

Y mae cryn baratoi yng nghapel Bethel, Heathfield Road ym mis Hydref ar gyfer recordio rhaglen S4C *Dechrau Canu, Dechrau Canmol*. Aeth cryn lawer o flynyddoedd heibio ers y recordiad olaf o'r rhaglen boblogaidd a ddarlledir ar nosweithiau Sul. Bum yn pwyso ar Emyr Afan i ddod. Addawodd, ond ni chadwodd ei air. Gadawodd ef y rhaglen i fynd i ddwylo cwmni teledu arall, a chroesewir y tro hwn Aled John i ofalu am y recordiad a wneir ar Nos Sadwrn, 26 Hydref o 6 i 8 o'r gloch yng nghysegr Bethel gyda Geraint Roberts, Prestatyn i lywio ac arwain y noson a Margaret Anwyl Williams wrth yr offeryn.

Rydym wedi dewis emynau a thonau sydd â chysylltiad gyda Lerpwl, ac nid dyma'r tro cyntaf i wneud hynny. Y gwir yw fod gyda ni swm helaeth o emynau a thonau sydd yn gysylltiedig gyda Lerpwl. Cenir fel y disgwylir emynau a luniwyd gan William Rees (Gwilym Hiraethog), J. O. Williams (Pedrog), Eleazar Roberts a chyfansoddwyr fel Ieuan Gwyllt, J. H. Roberts (Pencerdd Gwynedd) ac eraill. Pa un sydd yn haeddu ei le yn ein casgliad.

Nid camp hawdd yw llunio emyn sydd yn argyhoeddi y gynulleidfa, a byddaf bob amser yn edmygu yr emynwyr a luniodd gannoedd o emynau. Mae'n amlwg mai William Williams, Pantycelyn yw'r un a gafodd ei ysbrydoli yn bennaf o'r holl emynwyr mawr ein cenedl. Nid yw Elfed heb ei swm o emynau, ond mae ef o leiaf wedi llunio 172 o emynau. Dyma'i ddymuniad yn ei bennill, Dy Eiriau

*Yn ein calon, Athro Da,*
*Ysgrifenna D'eiriau,*
*Fel hyfrydwch beunydd fo*
*Rhodio yn dy lwybrau.*

Byddaf yn adrodd emynau yn gyson, cyn mynd i gysgu, ac ar ôl codi ar ddechrau'r dydd. Sylwaf fod gennyf lawer iawn o nodiadau am emynwyr Ceredigion a Lerpwl a Sir Gaerfyrddin, canys fe fagwyd nifer dda o emynwyr yn y siroedd hynny. Un o'r goreuon yw'r Parchedig Benjamin Francis (1734-1799), gŵr a dreuliodd rhan helaethaf o'i oes fel Gweinidog y Bedyddwyr Saesneg yn Horsley. Ei thema ef yn gyson oedd prydferthwch Eglwys Dduw, ond crwydra weithiau o'r maes hwnnw. Nid yn gyfangwbl chwaith fel y gwelir yn ei emyn *Cariad Brawdol* (Nid yw hwn yn *Caneuon Ffydd)*.

*Boed cariad brawdol cywir, brwd*
*Fel llydan ffrwd yn llifo*
*Trwy Salem deg, preswylfa Duw,*
*Gan daenu'n ddilyw yno.*

*Gyfeillach sanctaidd, siriol, sydd*
*Fel gwlith, ar feysydd gleision,*
*Mae'n taenu hedd a llwyddiant pur*
*I holl breswylwyr Seion.*

Hyfryd yw treulio amser ymhlith emynau y Parchedig John Hughes ('Glanystwyth': 1842-1902). Bu yn genhadwr yn y Rhondda Fawr ac yn Weinidog yn Aberpennar er mai ym Mangor y bu farw yn driugain mlwydd oed. Lluniodd D. R. Davies (Cledlyn) aml i emyn, er ei arbenigrwydd ef oedd fel Prifathro yng Nghwrtnewydd o 1903 i 1905. Ac onid ef oedd bardd cadeiriol Eisteddfod Genedlaethol Corwen yn 1919 a'r Wyddgrug yn 1903. Ni wyddwn fod y Parchedig T. Oswald Williams, gweinidog dau o gapeli Undodiaid Dyffryn Teifi, capel Caeronnen, Cellan a Brondeifi, Llanbedr Pont Steffan yn emynydd. Deuthum ar draws ei emyn gwerthfawr ar Weddi'r Arglwydd:

Ein Tad, yr Hwn sydd yn y nef!
Dy enw Di, sancteiddier Ef!
A deued yn awr Dy Deyrnas Di
I lanw ein calonnau ni.

A gwneler dy ewyllys Iôr
Fel yn y nef, ar dir a môr;
A boed ein byw yn weddi i Ti –
O Dad! o'th gariad cynnal ni.

O galon boed in' faddau brawd
A fo'n ein dyled ar ei frawd;
Ni cheisiwn Dy faddeuant Di
Ond fel bo'r Ysbryd ynom ni.

I brofedigaeth Dad na'n dwg,
A gwared ni o afael drwg;
Dy eiddo Di fo'r Deyrnas wen
A phob gogoniant, byth Amen.

Mae gen i go byw o weld y Parchedig T. Oswald Williamns ar hyd strydoedd Llanbedr Pont Steffan. Yr oedd ef a'i frawd Mr. Gwarnant Williams yn Gynghorwyr dylanwadol dros ben ar Gyngor Sir Aberteifi yn fy llecyndod. Rhyddfrydwr mawr oedd Gwarnant tra yr oedd Oswald yn perthyn i'r Blaid Lafur. Os cofiaf yn iawn bu yn Is-lywydd y Blaid Lafur yn yr etholaeth. Perthynai i'r grŵp hynny o Weinidogion Ymneuilltuol gwleidyddol ac yn wir yr oedd nifer helaeth ohonynt yn Rhyddfrydwyr a Phlaid Cymru, ond ambell un, nawr ac yn y man yng nghorlan y Blaid Lafur fel T. Oswald Williams.

## CORNEL Y TRYSORYDD

### TACHWEDD 2019



| | |
|---|---|
| Cyngor Llyfrau Cymru, Aberystwyth | £50.00 |
| Mrs Elizabeth Owen, Halewood | £20.00 |
| Mrs Eryl Chitty, Gateacre | £20.00 |
| Mrs Ann Lees, Cressington | £20.00 |
| Mr Alun Davies, Gateacre | £11.00 |
| Mr a Mrs Eurfryn Davies, Llangadfan | £30.00 |
| Mr a Mrs Bryan Jones, Bae Colwyn | £15.00 |
| Mrs Devida Broadbent, Huyton in Roby | £10.00 |
| Mrs Beryl Jones, Welwyn Gr. City | £75.00 |
| Mr a Mrs Idris Roberts, Allerton | £25.00 |
| **Cyfanswm** | **£276.00** |

**Roderick Owen (Trysorydd)**

Rhifyn Tachwedd 2019.qxp_Layout 1 15/10/2019 11:55 Page 3

# Hiraeth a diolchgarwch

Mae dros fis wedi mynd heibio ers i mi golli fy annwyl Marian ac mae arnaf ofn fod yr holl atgofion yn fy llethu. Pawb yn gwybod fel yr oedd wedi gofalu amdanaf; yn wir fy sbwylio mewn gwirionedd am drigain mlynedd. Caf ddiwrnodau o iselder ac eraill yn weddol dderbyniol, ond nid oes amserau da er yr holl atgofion melys. Daw rhywbeth yn dragwyddol i'm llenwi a thristwch – llythyr neu air caredig, sefyllfa oeddem yn ei rannu. Daw hefyd droeon eraill pan dorraf allan i wylo mewn hiraeth amdani heb arwydd paham. Llawer sydd wedi bod drwy brofedigaethau tebyg yn fy nghysuro y daw pethau yn well.

Ni fedrwn fod wedi cael gwell cefnogaeth a chynhaliaeth gan fy nheulu, teulu'r ffydd, ffrindiau a chymdogion. Yn wir dyna gawsom drwy gyfnod gwaeledd Marian pan oedd yn dibynnu yn fwyfwy arnaf. Am y mis diwethaf o'i hoes daethom i ddibynnu ar y gwasanaethau lles ardderchog, yr ysbyty, ein gweinidog ac eraill oedd yn cynnig a gwneud unrhyw beth oedd yn ofynnol. Bu adref gyda ni i'r diwedd a'n gadael yn heddychlon a di-boen. Cafodd angladd ardderchog gyda'r trefniadau yn unol â'n dymuniadau wedi ei chwblhau gan y Parchedig Dr D. Ben Rees a'r ymgymerwr tyner o Fôn. Gwasanaeth cofiadwy yng nghapel Bethania, Waterloo ac yna yng nghapel y Bedyddwyr, Rhydwyn, lle y rhoddwyd ei gweddillion i orwedd mewn bedd; ar gyfer dau; wrth ochor fy chwaer ym mynwent y capel.

Bu sôn, teyrngedau a chanmoliaeth am gymeriad tyner ac addfwyn Marian yn y gwasanaethau, yn 'Yr Angor' a'r 'Rhwyd' a gwir y dywedasant amdani. Cefais alwadau ffôn, a dros gant o gardiau a llythyrau o gydymdeimlad sydd yn dal i gyrraedd ein cartref. Bu un o'r 'Admiral Nurses' (rhan o Dementia UK) yn gofalu amdanom am y ddwy flynedd diwethaf a derbyniwyd rhoddion yn agos i fil o bunnoedd iddynt er cof am Marian. Daeth o'i lle naturiol ar y cyrion i dderbyn gwir edmygedd pawb ohonom.


Ni fedraf wynebu ysgrifennu at bawb sydd wedi ein cynnal yn y brofedigaeth ond coeliwch chi fi rwyf i a'r teulu yn wir gwerthfawrogi eich cefnogaeth. Diolch am ein gweinidog a fu'n gyson wrth erchwyn gwely Marian ac a arweiniodd y gwasanaethau yn Lerpwl a Rhydwyn. I aelodau Bethania a Bethel a hefyd Gweinidog ac aelodau Christ Church. Gwn y gallaf ddibynnu arnoch yn y dyfodol a hefyd - " Bydd y llaw na welwyf yn fy nghynnal i".

Gyda mawr ddiolch i chwi i gyd.

***John P. Lyons***

## *GAIR BYR I'R DARLLENWYR, CYFRANWYR, DOSBARTHWYR A THEULU'R ANGOR*

- **Tanysgrifiadau/Rhoddion** – Dyma eitem i godi'n calonnau, ac ym mhob rhifyn cawn golofn haeddiannol o haelionus. Daliwch i gynnal y papur bro unigryw hwn trwy anfon at ein Trysorydd, Roderick Owen, Maeshir, 21 Drennan Road, Allerton, Lerpwl / Liverpool L19 4UA. Bydd eich cyfraniad yn cael ei gydnabod yng Nghornel y Trysorydd yn *Yr Angor.*
- ***Pris Yr Angor.*** Am eleni eto yr un pris. Anhygoel. Dim ond £11.00 trwy'r post, trwy'r capeli a'r cymdeithasau £5. Cyfle i hysbysebu am £2, tudalen gyfan £60, hanner tudalen £30.
- **RHIFYNNAU NESAF YR ANGOR**
- **Rhifyn Rhagfyr 2019/Ionawr 2020** erbyn bore Gwener, 1 Tachwedd, 2019 – lluniau, adroddiadau, llythyron, cyfarchion, hysbysebion i benatgarthdrive@talktalk.net
- **Rhifyn Chwefror 2020** – erbyn bore Iau, 2 Ionawr, 2020 i 32 Garth Drive, Allerton, Lerpwl L18 6HW er mwyn ei bostio i'r cysodydd am 1 o'r gloch 2 Ionawr, 2020.
- **Rhifyn Mawrth 2020 –** erbyn bore Sadwrn, 1 Chwefror, 2020 gan ein bod am bostio'r amlen pnawn Llun am 1.30 o'r gloch i Lanuwchllyn.
- **Cofier y wefan –** Liverpool-welsh.co.uk (ewch yno yn gyson, byddwn yn gobeithio gosod mwy o luniau yno yn y dyfodol agos).
- **Cofier lansiad Cyfrol *Hanes Cymry Lerpwl* ar Nos Fawrth, 26 Tachwedd yn y Ganolfan am 7.30 o'r gloch.**



*Newyddion o*

# LANNAU MERSI A MANCEINION

## Eglwys Bethel, Heathfield Road, Lerpwl

*"Croeso Medi, fis fy serch*
*Mis y porffor ar y ffriddoedd;*
*Pan y ceni'th glychau mêl*
*Casgl y gwenyn o'r dyffrynnoedd"*

Dyma eiriau Eifion Wyn, ac mae wedi bod yn fis dedwydd a heulog i ninnau.

Bu tair chwaer yn ein gwasanaethu ar y Sul yn ystod y mis, Ms Rachel Gooding, Mrs Shân Morris, Parch Eleri Edwards, a dau frawd Mr. Dafydd Timothy o'r Rhyl, pregethwr cynorthwyol a'r Parch. Eric Jones, Bangor yn cwblhau y mis. Cawsom neges ysbrydol ac ymarferol ganddynt oll a diolchwn am eu tystiolaeth i'w Gwaredwr.

Bu farw yr Athro Emeritrus David Price Evans ar y 29ain o Awst yn yr Ysbyty Frenhinol, a'i angladd ar y 12fed o Fedi yn Eglwys Llangristiolus, Môn. Aeth cynrychiolwyr o Eglwys Bethel yno.

Cyflawnodd lawer yn ystod ei fywyd, yn yr Ysbyty Frenhinol ac yn Riyadh. Cafodd fyw i oedran teg, a theuliodd ei flynyddoedd olaf mewn cartref gofal yn Woolton.

***Nos Lun, Medi'r 16eg*** am 7.30 – seiat yng ngofal y Parch. Robert Parry. Salm 84 yw ei hoff salm, Salm y Pererinion. Rydym oll ar daith fel pobl Israel gynt. Cawn ddarlun o deuluoedd Israel yn ymlwybro i fyny'r bryn at Jerusalem â hiraeth ganddynt am gynteddau'r Arglwydd. Roedd dyhead yn eu calonnau yn dylifo a llawenydd i gyfarfod y Duw Byw.

Canu clodydd i Dduw am ei arweiniad drwy ddyffryn Baca, a'r tir diffaith yn troi yn ffynnon ac yn dwyn bendith iddynt.

"Ânt o nerth i nerth" Duw yn rhoi gras ac anrhydedd a "gwyn ei fyd y sawl sydd yn ymddiried ynot".

Dyna neges galonogol i ninnau ar daith bywyd, rhoi ein gofal a'm hymddiried yn Nuw.

Diolch i'r Parch. Robert Parry am ei arweiniad a rhoi cyfle i ninnau i drafod ar y diwedd.

Daeth llawenydd mawr i deulu Wena a Tim Evans ar enedigaeth mab i Aled a Chloe – Harry Edward Anwyl Evans yn Gottenburg, Sweden ar 9 Medi. Llongyfarchiadau'r eglwys atoch.

***Nos Lun, Medi 23ain*** noson agoriadol y Gymdeithas Lenyddol, ac fel ein harfer, noson cwis dan ofal Mrs Anne. M. Jones. Llywydd y noson Mrs Wena Evans. Cafwyd cyflwyniad gogleisiol iawn ganddi. Roedd pedwar tîm yn cystadlu a thîm A a ddaeth i'r brig, a phob aelod yn derbyn gwobr gan Anne. Gweler y darlun ar y dudalen gefn.

Ein llongyfarchiadau gorau i Rhys Williams, mab Dr. John a Beryl Williams ar ei ddyrchafiad yn Ddirprwy Farnwr Rhanbarthol. Pob dymuniad da Rhys yn dy swydd newydd.

Ein dymuniadau gorau fel eglwys i Mrs Meinwen Rees, Allerton ar gyrraedd pen-blwydd arbennig iawn yn 80 oed. Gobeithio i chwi fwynhau y dathlu yng nghwmni'r treulu er yr anhwylder a ddaeth i'ch rhan yn ddiweddar. Cymerwch ofal.

Mae Mrs Nerys Vaughan Jones, Aigburth adref o'r ysbyty. Ein dymuniadau gorau i chi ac y byddwch yn cryfhau yn ddyddiol tra'n derbyn gofal arbennig gan Eirian ag Ian a'ch ffrindiau i gyd.

Anfonwn ein cofion at yr aelodau hynny sydd mewn cartref gofal neu'n gaeth i'w cartrefi. Os y gallwn fod o gymorth mewn unrhyw fodd gadewch i ni wybod.



***Chloe, Harry ac Aled***

***Llun gan Wena Evans***

## Capel Seion, Penbedw

Yr ydym fel Eglwys yn cydymdeimlo yn ddwys iawn â Mr John Lyons, Bethania, Waterloo a'r holl deulu am y brofedigaeth lem a ddaeth i'w rhan ym marwolaeth hollol annisgwyliadwy ei fab-yng-nghyfraith Philip, gŵr Helen. Boed iddynt i gyd dderbyn cysur a nerth yn eu colled.

Mae Medi wedi bod yn fis o bump Sul ac ar y Sul cyntaf cawsom groesawu y Parchg. E. Gwynne Parry a Mrs Parry atom. Fel arfer, 'roedd dau ddarlleniad ac fe ddarllenodd Mrs Olwen Roose Jones y darlleniad cyntaf oedd o Lythyr Iago, Pennod 1 ac adnodau 19 -27. 'Roedd yr ail ddarlleniad o Lythyr Paul at yr Effesiaid - Pennod 5 ac adnodau 15-21 ac fe'i darllenwyd gan Mrs Blodwen Prouting. Diolch yn fawr i'r ddwy.

'Roeddem yn disgwyl Mr Dafydd Timothy, Y Rhyl i gynnal y gwasanaeth ar yr ail Sul ond ar y dydd Iau cyn y Sul,

cefais y newydd nad oedd wedi trefnu i ddod i Seion. Gan fod dau aelod ar eu gwyliau a dwy yn wael, nid oedd gennym ddigon i gynnal cyfarfod gweddi, felly penderfynwyd canslo'r gwasanaeth.

Daeth y Parchg. Victor Edwards atom ar y trydydd Sul ac yna y Barchedig Eleri Edwards ar y pedwerydd Sul. 'Roeddem yn falch iawn o gael y cyfle i'w chroesawu atom unwaith eto ac edrychwn ymlaen at y Sul olaf yn Hydref pan fydd hi gyda ni eto ac yn ein harwain yn y Gwasanaeth Diolchgarwch ac Oedfa'r Cymun.

Edrychom ymlaen yn fawr iawn at ymweliad y Parchg. Eric Jones, Bangor ar y Sul olaf o'r mis, oedfa y Cymun, gan gofio'r gwasanaeth arbennig a gawsom pan oedd gyda ni ar Mai 14, 2017 ac ni gawsom ein siomi. Cawsom wasanaeth arbennig iawn unwaith eto.

Mae ein Trysorydd, Mrs Phyllis O'Neill, wedi cael triniaeth ar ei dwy lygaid yn diweddar ac yr ydym yn falch iawn o ddeall fod popeth yn foddhaol iawn. O'r diwedd mae coes Mrs Alice Jones yn gwella ar ôl y ddamwain a gafodd wythnosau yn ôl. Mae wedi dioddef llawer iawn o boen yn ddewr iawn ac wedi gorfod gohirio llawdriniaeth ar ei chlun oherwydd y briw agored. Dymunwn wellhad llwyr a buan iddi.

Cysylltwch â'r
YR ANGOR
PAPUR CYMRY GLANNAU MERSI A MANCEINION
'ANGORWYD YN NIWYLLIANT EIN CENEDL'
benatgarthdrive@talktalk.net

## Cymdeithas Cymry Birkenhead

Daeth agoriad ein tymor newydd ar nos Lun, Medi 16eg yng Nghapel Seion, Laird Street. Wedi ymaelodi, ail gyfarfod, sgwrsio a rhannu hanesion yr haf, croesawyd ni gan ein Llywydd Oes, Mrs Mair Rees Jones. Talodd Mair, deyrnged wresog i Mrs Beryl Van Beek, a fu farw yn annisgwyl ym mis Medi.

Bu Beryl yn aelod ffyddlon o'n Cymdeithas am lawer blwyddyn; merch dawel, hoffus a cherddores alluog. Roedd galw amdani ar hyd yr ardal i gyfeilio mewn cystadlaethau, cyngherddau, ac eglwysi a chapeli ar hyd Cilgwri. Gwelsom eisoes ei cholli o'n mysg.

Cawsom gip ar raglen y tymor, ac yna noson agoriadol, hwyliog ac ysgafn gyda Mair wrth y llyw. Clywsom adroddiadau a darlleniadau gan Iola, Olwen, Alice ac Eirwen. Uchafbwyntiau'r noson oedd gwrando ar lais cryf Arwel yn canu'n ddigyfeiliant, ac unawdau ar y trwmped gan Gareth. Anodd credu ei fod heb ymarfer ers misoedd. Gwnaed y diolchiadau gan Menna, a'r te gan y pwyllgor.

## Eglwys Bethania, Crosby Road South, Waterloo

Cydymdeimlwn yn ddwys iawn gyda teulu ein brawd John Lyons yn y brofedigaeth sydyn a ddaeth iddynt ym marwolaeth y mab-yng-nghyfraith ag yntau ond yn ei bumdegau cynnar. Estynnwn ein cofion i Helen a'r teulu, a hwythau wedi colli mam a nain yn ymadawiad Marian Lyons rai misoedd yn gynt. Roedd Phil gyda ni y dyddiau hynny a chawsom sgwrs felys gydag ef. Roedd yn ganol ei nerth ac yn hollol annisgwyl y daeth yr alwad.

Clywsom hefyd am farwolaeth yr Athro Emeritus David Alan Price Evans, Woolton ar 29 Awst, a bu ef yn ei ddyddiau fel myfyriwr ymchwil yn lletya gyda'i ewythr a'i fodryb, ac yn mynychu Capel Waterloo yng nghwmni Mr a Mrs Benjamin Evans. Cawsom fel eglwys gyfle i gofio pen-blwydd arbennig Mrs Meinwen Rees ar 14 Medi, a diolchodd y teulu am y meddwlgarwch ar hyd y misoedd anodd a fu arnynt. Edrychwn ymlaen i fod yn Oedfa'r Mawl ar 13 Hydref (pnawn Sul am 2 o'r gloch) o dan arweiniad Mr. R. Ifor Griffith. Diolchir yn fawr iddo gennym fel eglwys.


# PEARSON COLLINSON

## *TREFNWYR ANGLADDAU LERPWL*

GWASANAETH EFFEITHIOL -
CAPELI PREIFAT, CEIR MODUR HARDD, ATEB NOS A DYDD

**Prif Swyddfa**
87-91 Allerton Road, Liverpool L18 2DD
Ffôn: 0151 722 1514. Ffacs: 0151 737 1997

**Swyddfa arall**
255 Speke Road, Liverpool L25 0NN
Ffôn: 0151 448 0808

National Association of Funeral Directors Est 1905

Os ydych ar ôl cysylltu gyda un o'r swyddfeydd am gael gair personol yna canolbwyntiwch ar 0151 722 1514

Rhifyn Tachwedd 2019.qxp_Layout 1 15/10/2019 11:55 Page 6

# Newyddion o Manceinion ac Altrincham



*Dyma lun o'r rhai a gymerodd ran yn y Rali Genhadol yng nghapel Altrincham ar brynhawn Sul ym mis Medi.*
*Yr enwau o'r pulpud o'r un talaf:*
*Mrs Hafwen Jones, Parch Eleri Edwards, Mrs Bronwen Jones, (rhes ffrynt gan ddechrau o flaen Bronwen) Mrs Habron-James, Miss Siwan Jones (Siaradwraig) Mrs Mair Swift (Llywydd) Mrs Eflyn Evans (Trysorydd) Mrs Glenys Davies.*

Ym mis Medi a Hydref fel arfer mae pethau yn ail ddechrau yn ein capeli ac eleni roedd yn bleser i gyfarfod â'n gilydd eto ar ddechrau mis Medi gyda phregeth wych gan y Parch Eric Greene y Bala. Mae ein diolch yn fawr iddo am ddod yr holl ffordd atom ar brynhawn Sul. Cynhaliwyd y Rali Genhadol yng Nghapel Willow Tree Road, Altrincham ar brynhawn Sul 8 Medi. Roedd y gynulleidfa wrth eu bodd i groesawu Siwan Jones o Rhosllannerchrugog: dynes ifanc ymroddedig ac yn Gristion gloyw. Hi oedd i annerch ar ôl defosiwn agoriadol wedi ei drefnu gan Mrs Mair Swift, Llywydd Pwyllgor y Merched yn ein Dosbarth. Roedd pawb yn barod i gymryd rhan, o'r ddau gapel, Capel Altrincham a Noddfa Oaker Avenue a chafwyd agoriad hyfryd.

Wedi gorffen ei gradd yng Nghaerdydd ers flwyddyn neu ddwy mae Siwan a hefyd wedi gweithio am gyfnod gyda myfyrwyr yn yr Undeb Gristnogol yng Nghaerdydd, ac erbyn heddiw y mae hi yn cyd-weithio rhan amser efo Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn ein Henaduriaeth gyda phlant a phobl ifanc ac wedi sefydlu siop ddiddorol yn ei hardal ac yn llwyddo yn y busnes, gan gyd-weithio â'i thad sydd erbyn hyn wedi ymddeol o'i waith.

Mae rhan fwyaf o waith Siwan yn yr ysgolion a'r capeli yn ardal Wrecsam. Dywedodd wrthym am y gynllun 'Agor y Llyfr' lle mae hi wedi sefydlu grwpiau o bobl o'r Eglwysi i fynd i ysgolion i actio allan hanesion o'r Beibl i'r plant. Maent yn paratoi o flaen llaw yn ymarferol a thrwy weddi; yn gwisgo i fyny ac mae'r gwaith yn plesio'r plant a hefyd y rhai sy'n cyflwyno neges y Beibl mewn ffordd mor hawdd ei deall.

Roedd anerchiad Siwan yn fywiog am iddi hi a'i mam actio ychydig o hanes i ni ac roedd hi yn ein hannog ni i chwilio os oedd yna bosibiliad i ni gymryd rhan yn lleol, yn y cynllun sydd yn cael ei alw 'Open the Book' yn Saesneg. Cynllun wedi ei greu gan Gymdeithas y Beibl. Ers y llynedd rydym wedi bod yn cynnal ein Rali Genhadol ar y Sul er mwyn i'r dynion gael y pleser o glywed ein siaradwyr, ac mae hyn yn rhoi gwell gynulleidfa i'r ymwelydd, a gwell casgliad at y gwaith gobeithio!

Fel canlyniad i'r gwaeledd oedd gan Catherine Pritchard, bu iddi farw yn ysbyty Wythenshawe ar ddechrau mis Medi a chawsom yr arwyl yng nghapel Willow Tree Road, Altrincham ar ddydd Mercher 18 Medi. Roedd ei hanhwylder wedi dechrau ddwy flynedd yn ôl pan ar wyliau yn Blackpool, ond cadwodd ei diddordeb ym mhethau gan gwylio'r teledu a gwerthfawrogi ymweliadau o'r teulu ac o'i ffrindiau. Gwelais hi yn reit aml ac roedd gwrando ar emynau Cymraeg ar CD's wedi rhoi pleser iddi, yn ogystal â chofio'r geiriau i'w cyd-adrodd efo fi. Mi fydd gwacter mawr eto yn ein gwasanaethau hebddi.

Felly cymysgedd o ddigwyddiadau sydd yn amlwg yn ein bywyd ynte. Ond edrychwn ymlaen at ein cyfarfodydd yn y Gymdeithas a'r Capel yn y tymor hwn cyn y Nadolig – mae'r gweinidogion gwadd wedi ein herio yn barod ac mae eraill ar y gorwel! Cofion annwyl at ddarllenwyr yr Angor oddi wrthym ni Gymry Manceinion a Altrincham.

## Cymdeithas Cymry Lerpwl

Dechreuodd tymor newydd Cymdeithas Cymry Lerpwl ar Fedi 17eg a braf oedd gael ail ddechrau cyfarfod wedi gwyliau'r haf. Ein gwestai y noson yma oedd Billy Thompson sydd yn chwarae amrywiaeth o gerddoriaeth ar ei ffidil. Mae Billy yn byw yn y Bala ond yn wreiddiol o Gilgwri. Aeth i Goleg Celf a drama Caerdydd i astudio cerddoriaeth glasurol ond mae'n wedi ymddiddori mewn cerddoriaeth ers yn fachgen ifanc. Bu'n chwarae ledled Cymru gyda grŵp Meic Stevens. Mae ganddo ef fand ei hun sef 'Amledd' Mae rhai o'r darnau mae'n chwarae ar y ffidil wedi eu cyfansoddi ganddo ef a'i wraig Rhian. Ar y noson cawsom ein diddori gyda cerddoriaeth glasurol, jazz, alawon Cymreig a cherddoriaeth y sipsiwn. Noson ardderchog i ddechrau'r tymor a diolch Nan Hughes Parry am baratoi y wledd a gawsom yng nghanol y noson.

Yr wythnos ganlynol cawsom gwmni John Ogwen a Maureen Rhys. Rydym i gyd yn gwybod am eu cyfraniad i fyd y ddrama yng Nghymru ac am eu holl waith ar y teledu, ffilmiau, llwyfan ac ar y radio. Yn 1992 cyhoeddwyd llyfr 'Annwyl Kate, Annwyl Saunders' sydd yn cynnwys llythyrau a fu rhwng Kate Roberts a Saunders Lewis dros gyfnod o drigain mlynedd (1923-1983). Mae 218 o lythyrau yn y llyfr.

Yn y llythyrau gwelwn y berthynas glos a fu rhwng y ddau person. Hefyd dysgwn am fywyd gwleidyddol y cyfnod a dylanwad awduron eraill ar eu gwaith. Roedd cyflwyniad John Ogwen a Maureen Rhys o rai o'r llythyrau yn wefreiddiol. Cawsom noson y byddwn yn cofio amdani am yn hir iawn.

***Nid yw'r bwrdd golygyddol Yr Angor o reidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a fynegir yn y papur.***

***Os bydd llun neu erthygl wedi ymddangos mewn unrhyw bapur bro neu gylchgrawn arall ni fydd Yr Angor o reidrwydd yn ei ddefnyddio.***

CYMRAEG

***Ariennir Yr Angor yn rhannol gan Lywodraeth Cymru***

*Cyhoeddwyd gan Bwyllgor yr Angor, Heathfield Road, Lerpwl 15. Cysodwyd ac argraffwyd gan Aeron Jones, Ty'n y Cefn, Llanuwchllyn 07729 960484*

Rhifyn Tachwedd 2019.qxp_Layout 1 15/10/2019 11:55 Page 7

**Cyflwyno:**

# IWAN LLWYD (1957-2010)

***gan Dr. Pat Williams, Allerton***



Un o feirdd gorau ei genhedaeth oedd Iwan Llwyd. Enillodd y goron yn Eisteddfod Genedlaethol Cwm Rhymni 1990 am gasgliad o gerddi “Gwreichion”, ac enwyd ei lyfr *Dan Ddylanwad*, sy’n cynnwys cerddi am ei brofiad yn America ynghyd â 27 o ddarluniau du a gwyn gan Anthony Evans, yn Llyfr y Flwyddyn yn 1997. Credai mewn poblogeiddio barddoniaeth drwy ddarlleniadau cyhoeddus a pherfformiadau cerddorol, yn fyw ac ar radio a theledu, nid yn unig yng Nghymru ond ar gyfandir America hefyd. Ym Mis Mai 2006 darllenodd beth o’i waith yn adeilad y Cenhedloedd Unedig yn Efrog Newydd fel rhan o’r *People’s Poetry Gathering*.

Mae o ddiddordeb arbennig i ni ar Lannau Mersi, am iddo gyfansoddi cerddi yn ymwneud â Lerpwl a Chilgwri. Cyfansoddodd y gerdd “Ffarwelio” ar achlysur angladd ei gyfnither Mrs Anne Clitherow a oedd yn aelod ym Methel, Heathfield Road, Lerpwl:

*Rhwng Menlove Avenue a Penny Lane,*
*Ar y tir cyfarwydd rhwng deigryn a gwên,*
*Lle mae’r alaw yn ifanc a’r cefndryd yn hen*
*Fe ddywedais i ffarwél.*

Ymddengys ei gerdd “Cilgwri” yn *Rhyw Deid yn dod Miwn*, llyfr a gynhyrchodd ar y cyd â’r ffotograffydd Aled Rhys Hughes. Yn y gyfrol hon gwelir lluniau o arfordir Cymru, ac yn gyfochrog â phob un, gerddi gan Iwan Llwyd. Egyr y gerdd “Cilgwri” gyda’r llinellau:

*Y tu hwnt i’r gors mae Cymru*
*Yn codi’n gadeiriol o’r dŵr.*

Yna sonia am sgerbydau’r hen longau yng ngwlyptir y Dyfrdwy, “yn ysu am ddilyn gweddill y daith.” Ond er gwaethaf y pethau a ddiflannodd o Gilgwri roedd atgofion yn glynu yn y cof a bywyd yn dal i fynd yn ei flaen, fel yn achos Mwyalchen Cilgwri yn y chwedl “Culhwch ac Olwen” a oedd yn dal i gofio eignion y gof o gyfnod ei heienctid er nad oedd yn bodoli erbyn iddi heneiddio. Mae’r gerdd yn cloi gyda’r cwpled:

*a rhywle’n y lle mae mwyalchen heno*
*ar eingion y gof yn dal i guro.*

Roedd lleoedd yn ysbrydoli Iwan Llwyd a unlle yn fwy na Soar y Mynydd, y capel mwyaf anghysbell yng Nghymru. Cyfansoddodd ddwy gerdd am y capel hwn, un yn ei gyfrol gyntaf *Sonedau Nos Sadwrn*, ac yn ddiweddarach soned lle y mae’n disgrifio’r tawelwch o gwmpas Soar y Mynydd, a bugail yn agor y capel gwyngalch, sydd fel goleudy yn cyfeirio pobl ddiarth o gwmpas y moelydd maith. Yna cyflwyna ei neges ddeifiol: mae cyfalafwyr wedi gweld eu cyfle i greu melinau gwynt i amharu ar dawelwch y lle a hagru’r amgylchfyd:

*Fe welodd haid o flingwyr cyfalafol*
*Werth cneifio a chorlannu’r awel rydd;*
*Cyn hir fe welir uwch y capel gwyn*
*Fugeiliaid newydd ar y llethrau hyn.*

Cerdd arall o’i eiddo, lle y mae’n tynnu sylw at broblem gymdeithasol barhaol, yw “Tai Unnos”. Yn y rhan gyntaf mae’n sôn am ein cyndeidiau yn codi tai “rhwng gwyll a gwawr / a chynnau tân cyn i’r landlord dynnu’r cyfan i lawr.” Ond mae digartrefedd yn rhan o’n bywyd beunyddiol o hyd. Heddiw gwelir pobl “yng nghesail concrid swyddfeydd gweigion, dan bontydd ffyrdd osgoi” ac “mewn meysydd parcio” yn “hawlio darn o dir â bocsys cardbord blêr.”

Roedd Iwan Llwyd yn ddyn amryddawn. Yn ogystal â barddoni, bu’n canu’r gitâr bas gyda grwpiau Geraint Løvgreen a Steve Eaves. Yn anffodus, bu farw yn gynamserol a chafodd Cymru ei hamddifadu o ddarllen a chlywed mwy o’i gynnyrch barddonol.

## Moliant trwy Gân ar Emynwyr a Chyfansoddwyr Lerpwl yng nghapel Bethel, Heathfield Road, Lerpwl am 2 o’r gloch

**CROESO A DEFOSIWN GAN Y CYFLWYNYDD** – Parchedig D. Ben Rees.
Cyflwyniad
1. Tôn: Dennis. Emyn Rhif 1 - Cydganwn foliant rhwydd – Rhiannon Liddell
Cyflwyniad
2. Tôn: Mae D'Eisiau di bob awr. Rhif 221 – Eryl Wyn Jones
Cyflwyniad
3. Tôn: Liverpool. Rhif 764 - Ni allodd angau du – Norma Lloyd Owen
Cyflwyniad
4. Tôn: Freiburg. Rhif 527 – Cyn llunio'r byd - Wena Evans
Cyflwyniad
5. Tôn: Eleazar. Rhif 721 - O na bawn yn fwy tebyg. – Anne M. Jones
Cyflwyniad
6. Tôn: Penmachno. Rhif 167 - Ar fôr tymhestlog.
Darllenir gan Olwen Jones, Seion, Penbedw.

**ANERCHIAD Y LLYWYDD.** Mair Rees Jones o Seion, Penbedw.

Cyflwyniad
7. Tôn: Wells New. Rhif 271 - Hyfryd lais Efengyl Hedd - John Lyons o Bethania
Cyflwyniad
8. Tôn: Aberafan. Rhif 592 - Ysbryd Glân golomen nef - Elin Bryn Jones o Bethania.
Cyflwyniad
9. Tôn: Maes Gwyn. Rhif 779 – O fendigaid Geidwad – y Cyflwynydd
Cyflwyniad
10. Tôn: Ebeneser. Rhif 204 - Felly carodd Dduw wrthrychau- Kathryn Norton
Diolchiadau gan Llywydd y Mis – Roderick Owen.
Cyflwyno yr emyn olaf
11. Tôn: Whitford. Rhif 316 - O tyred Iôr Tragwyddol -
i'w darllen gan yr Arweinydd R. Ifor Griffith
**Y Fendith**
***Arweinydd R. Ifor Griffith***
***Cyfeilydd Margaret Anwyl Williams***

***Lluniaeth ysgafn ar y diwedd.***

Rhifyn Tachwedd 2019.qxp_Layout 1 15/10/2019 11:55 Page 8

*YSGRIF GOFFA:*

# Athro Emeritus David Alan Price Evans, Lerpwl

Ar fy ffordd adref o Amlosgfa Springwood ar bnawn Mawrth, 17 Medi ar ôl gwasanaethu yn arwyl y Prif Arolygydd Duncan Bracewell gwneuthum rhywbeth nad wyf wedi ei wneud ers misoedd sef prynu copi o'r ***Liverpool Echo*** a gweld yn y dudalen Angladdau y cofnod canlynol yn Gymraeg:

**EMERITUS PROFESSOR DAVID ALAN PRICE EVANS, Gynt o 27 Montclair Drive, Lerpwl, a Chartref Gofal Woolton Grange. Yn dawel yn Ysbyty Brenhinol Lerpwl Awst 29, 2019 yn 92 oed. Colled fawr i'w deulu a'i gyfeillion niferus. Gwasanaeth cyhoeddus ddydd Iau Medi 19 am 11.30am yn Eglwys Llangristiolus, Ynys Môn, ac i ddilyn ym Mynwent Gymunedol, Llangristiolus. Blodau teulu yn unig, ond os dymunir derbynnir rhoddion yn ddiolchgar tuag at Dementia UK a Woolton Grange Care Home. Ymholiadau i Pearson Collinson, 87-91 Allerton Road, L18 2DD. E.S.**



Pa bryd cyn hynny y bu cofnod Cymraeg am arwyl yn yr *Echo*? Ond y mae'r cofnod yn dweud bron y cwbl. Nodir ei gartref ef yn Lerpwl lle, y cartrefai ei rieni Owen ac Elisabeth Evans, a lle y bu y blynyddoedd diwethaf, sef yn y Cartref Gofal yn Woolton lle y derbyniodd garedigrwydd ac ymweliadau gan nifer ohonom. Cawn gyfeirio at yr Emeritws Athro.

Sonnir am yr Eglwys yn Llangristiolus er mai Presbyteriad ydoedd hyd ei oes, yn wir yn hannu o hil Presbyteraidd. Ei daid y Parchedig J. E. Jones, Llanfwrog a Llandegfan (ac os cofiaf yn iawn Warrington), a'r Parchedig Llewellyn Jones, Douglas Road yn ewythr iddo. Ac i danlinellu yr elfen wahanol oedd iddo, mynnodd fel ei rieni gael Gwasanaeth y Llyfr Cyffredin ar diwedd ei bererindod!

Ganwyd ef ym Mhenbedw yn 1927 ond yn fuan iawn symudodd ei dad i swydd Postfeistr Llythyrdy Llangefni ac yno y cafodd ei addysg elfennol. Golygai Llangefni a Môn, gryn lawer iddo ac yn naear Môn y gosodwyd ei gorff hyd ddydd yr Atgyfodiad. Symudodd ei dad i Sir y Fflint pan oedd David yn barod i gael addysg uwchradd, a threfnwyd hynny yn Ysgol Ramadeg Treffynnon lle y disgleiriodd gan ennill lle ym Mhrifysgol Lerpwl yn 1945. Ac oddi ar hynny bu Lerpwl yn bwysig yn ei hanes. Disgleiriodd fel myfyriwr, gradd mewn gwyddoniaeth i ddechrau, ac ar ôl hynny gradd meddygaeth yn Adran Meddygaeth. Ef oedd y mwyaf galluog o'i genhedlaeth. Cipiodd yr holl wobrau fel Gwobr O. T. Williams.

Daeth hi'n amser Gwasanaeth Milwrol ac ymunodd gyda'r RAMC a gwelodd ddwy flynedd o ymlafnio yn y Dwyrain Pell gan ofalu ar ôl y milwyr a anafwyd yn Rhyfel Corea a Rhyfel Malaysia. Daeth yn ôl i Lerpwl i gwblhau ei addysg gan dreulio blwyddyn ym Mhrifysgol ac Ysbyty enwog Johns Hopkins yn Baltimore. Enillodd radd arall ond yn well na hynny agorwyd drysau lawer iddo a galw mawr amdano mewn cynhadleddau, Prifysgolion led led y byd.

Derbyniodd swyddi meddygol yn Ysbytai Lerpwl a chyfle i ddarlithio yn yr Adran Feddygol a derbyn Cadair Bersonol. Diwedd hyn fu ei wneud yn Bennaeth yr Adran a bu yn hynod o haelionus i'r Adran. Bu galw mawr arno yn y chwe a'r saith degau i ddarlithio i gymdeithasau Cymraeg y Glannau a gwnai hynny mewn Cymraeg glân gloyw. Mynychai oedfaon Capel Heathfield Road yn ffyddlon a mynnai daflu linyn mesur ar aml i gennad.

Nid oedd pob un a ddeuai i bulpud Bethel ei pasio ei brawf ef. Chwith oedd ei weld ryw saith mlynedd yn ôl yn dirywio yn feddyliol, y gŵr galluog a dreuliodd chwarter canrif yn Ysbyty bwysicaf Riaydh yn Saudi Arabia yn stryglo gyda ffeithiau a dyddiadau. Diwedd hyn oedd cyfnodau yn yr Ysbytai a chael blynyddoedd o Gartref Gofal lle y bu fyw ar ei atgofion a'i fywyd prysur fel arbenigwr pwysig ei ddydd.

Bu yn haelionus iawn i Brifysgol Lerpwl. Hwy oedd i dderbyn rhan helaethaf o'r cyfoeth a gasglodd, a chafwyd nifer o Gadeiriau Meddygol wedi ei sefydlu ganddo ef. Un yn enw ef ei hun. Ysgrifennodd yn helaeth yn ei faes arbenigol, a cheir ryw hanner dwsin o sgrifau o'i eiddo yn *Y Bont*. Cadwai i'r encilion gan wasanaethu ei fyd yn gydwybodol. Deuthum i'w adnabod yn dda a bum o gymorth anfesuradwy iddo pan fu farw ei fam a'i dad. Coffa da amdano a bydd ei enw yn parhau yn hanes meddygaeth dinas Lerpwl.

***D. Ben Rees***

## ER GWAETHAF PAWB A PHOBETH!!

Cynhaliwyd y chweched gystadleuaeth Golff Cymry Lerpwl yng nghlwb Golff Woolton ar Fedi 4ydd. Roedd 21 o golffwyr ddewr yn wynebu gwyntoedd cryf a chyfnodau o law monsŵn tra'r oeddynt yn cwblhau'r deunaw twll. Ddr. Kath Lewis Jones oedd enillydd y gystadleuaeth i ferched a enillodd Judith Davies ddwy wobr arall am gryfder a chywirdeb ei hergydion. Geraint Jones o Rhosllanerchrugog enillodd y gystadleuaeth i ddynion ar ei ymddangosiad cyntaf. Roedd Geraint hefyd yn aelod o'r tîm buddugol gyda'i bartneriad profiadol David Davies (Yr Wyddgrug) a Chadeirydd yr Angor.

Fe wnaethpwyd elw o £1720 ar y noson. Aeth £1400 i Gyfundrefn Nyrsio Admiral yn Lerpwl sef cyfundrefn o nyrsus arbenigol sydd yn gofalu am gleifion gyda dementia a'u teuluoedd. Braf oedd gweld John, Marc a Corrina Lyons gyda ni ar y dydd a'r ddwy nyrs Admiral a oedd mor gefnogol i'r teulu yn yr amser pan oedd Marian yn gwaelu. Mae'r gweddill yr elw wedi ei drosglwyddo i'r Parch. D. Ben Rees tuag at gyhoeddi ei lyfr ar hanes y Cymry yn Lerpwl.



Cynhelir y gystadleuaeth nesaf ar Fedi 2ail 2020.

## Cymdeithas Etifeddiaeth Cymry Glannau Mersi

# *HANES CYMRY LERPWL*

Braf yw gallu tystio bod y Parchedig Ddr D. Ben Rees wedi gorffen llunio cyfrol sylweddol yn yr iaith Gymraeg ar Hanes Cymry Lerpwl, ffrwyth 50 mlynedd o ymchwil dygn i'r ffynhonellau. Erbyn canol Awst 2020 gobeithia y bydd y fersiwn Saesneg wedi ei chwblhau ar yr un testun. Bwriedwn gael pedwar argraffiad, sef dwy gyfrol clawr meddal yn Gymraeg a Saesneg a dwy gyfrol clawr caled yn Gymraeg a Saesneg. Ym mhob argraffiad ceir dros gant o luniau addas a bwriedir wrth gyhoeddi defnyddio papur a teip darllenadwy, a lamineiddio er mwyn cael graen ar gyfrol o dros 500 o dudalennau.

I gyflawni y cyfan hyn gyda graen teimlwn fel Cymdeithas y dylem wahodd unigolion, cymdeithasau a chwmnïau i gefnogi y fenter fawr hon ac yna cyfrannu tuag at y costau uchel am y gwahanol fersiynau. Bydd y gyfrol Gymraeg yn ymddangos Nos Fawrth 26 Tachwedd 2018 am 7-30 o'r gloch yng Nghanolfan y Cymry (mynediad Auckland Road, Allerton), Lerpwl am 7.30pm o'r gloch o Wasg y Lolfa. Bydd y gyfrol Saesneg yn ymddangos y flwyddyn nesaf, yn mis Medi 2020.

Gwahoddir chwi i ymateb yn ddiymdroi ac mi fydd pawb fydd yn cyfrannu £50 yn derbyn copi clawr caled o'r gyfrol Gymraeg neu'r Saesneg. A wnewch chwi nodi eich dymuniad am y gyfrol gan y bwriadwn ei rhifo, hefyd ei llofnodi ac mi fydd eich enw a'ch cyfraniad yn cael ei nodi yn rhestr y Tanysgrifwyr yn y cyfrolau.

*Gyda diolch didwyll,*

Dr. Arthur Thomas (*Ysgrifennydd*)
e-bost: arthurthomas1@talktalk.net
Ms Rachel Gooding (*Trysorydd*) e-bost: RG@range.seftn.sch.uk
Gyda cymeradwyaeth Dr. D Ben Rees (*Cadeirydd*)
e-bost: benatgarthdrive@talktalk.net

---

**Rhestr 1 (Mai 1 - Mehefin 30, 2019) = £3,350**
**Rhestr 2 (Gorffennaf 1 - Awst 31) = £280**

**Rhestr 3 (Medi 1 - 30 Medi)**

i) Dr. Arthur ac Ann Thomas, West Allerton, Lerpwl y swm o £50
ii) Dafydd Ll. Rees, West Hampstead, Llundain, y swm o..... £50
iii) Hefin Rees. QC a Dr. Bethan Rees, Harpenden, y swm o £50
iv) Parchedig Gwyndaf ac Eirlys Richards, Llwydiarth, Powys y swm o ....................£50
v) Mrs Iona James, Aintree y swm o ....................£40
vi) Elw o Gystadleuaeth Golff Cymry Lerpwl, Medi 2019 y swm o ....................£320

Cyfanswm ....................**£530**

## YMATEB

Enw ........................................

Cyfeiriad ........................................

........................................

........................................

Archeb – dynoder a chroes
**1. personol** ☐
**2. i Gymdeithas** ☐
**3. i Gwmni** ☐
**Archeb am y Gyfrol Gymraeg a'r Saesneg (Rhif)** ☐
**Archeb am Gyfrol Gymraeg (Rhif)** ☐
**Archeb am Gyfrol Saesneg (Rhif)** ☐

Anfoner y swm priodol trwy siec neu arian rhydd i'r Trysorydd, Cymdeithas Etifeddiaeth Cymru Glannau Mersi / Merseyside Welsh Herirage Society, 32 Garth Drive, Allerton, Lerpwl, L18 6HW, a chaiff ei nodi yn Yr Angor a hefyd yn rhestr y Tanysgrifwyr.

***Coffâd***

# BERYL VAN BEECK (1939-2019),

## Bromborough, Cilgwri

**Syfrdanwyd ni fel Cymdeithas Cymry Cilgwri o glywed am farwolaeth sydyn iawn, ein ffrind a'n haelod, Beryl van Beek. Cafodd drawiad tra'n garddio, aed a hi i ysbytai Arrowe Park a Broadgreen ond er ymdrechion y meddygon, bu farw'n dawel ar Medi'r ail.**

**Bu'r arwyl yng nghapel Methodistaidd, Bromborough, lle oedd Beryl yn aelod o'i hieuenctid, ac yn organyddes. Arweiniwyd y gwasanaeth gan ei gweinidog, y Parch. Barbara Banton, gyda chymorth y Parch. Glenys Wilkinson a ddarllenodd Salm 23 yng Nghymraeg. Dewisiwyd y cyfan gan Beryl ei hun, i gynnwys darlleniadau, ac emynau yn gyffes o'i ffydd gref, bersonol a'i chariad at ei Cheidwad, a cherddoriaeth i gyfleu ei chariad at Gymru a'r iaith.**

**Ganwyd Beryl a'i brawd Elwyn i reini Cymraeg, Lilian a William Jones, yn Bromborough ac yno priododd Wim van Beek, o deulu o'r Iseldiroedd, a magodd dau fab, David ac Andrew. Addysgwyd Beryl yn yr ysgol Ramadeg lleol a choleg Edge Hill, Lerpwl a bu'n athrawes yn ysgol gynradd Christchurch, Penbedw, yng nghwmi dwy gyfaill Cymraeg Eirina Roberts a Mair Rees Jones.**

**Cerddoriaeth oedd ei diddordeb a'i thalent arbennig – mewn ysgol, capel, cyngherddau a gwyliau yng Nghilgwri a Lerpwl. Roedd galw mawr amdani fel cyfeilydd a beirniad yng ngwyliau cerdd, ac roedd wrth yr organ ar Sul olaf ei hoes.**

**Astudiodd Bioleg mewn ysgol haf yn Rhydychen ac roedd ei gwybodaeth o fyd natur yn eang. Aeth i ddosbarthiadau arlunio, a chylluniodd gardiau i'w chyfeillion.**

**Yn ein Cymdeithas ym Mhenbedw ac yn nosbarth y dysgwyr, mwynhaodd ddal ei gafael ar bob agwedd o ddiwylliant Cymraeg. Redd yn barod iawn i gyfeilio ar y piano a'r organ ac er nad oedd yn hyderus gyda'r iaith, ymdrechodd i barhau i ddysgu ac ymarfer, a chymeryd rhan mewn cyfarfodydd amrywiol.**

**Roedd arwyl Beryl yn dysteb i'w ffydd yng Nghrist, a'i sicrwydd o fod "gyda Christ, canys llawer iawn gwell ydyw".**

**Diolch am gael ei hadnabod.**

***E.S.***

Rhifyn Tachwedd 2019.qxp_Layout 1 15/10/2019 11:55 Page 10

# "O'R GRAIG Y'M NADDWYD"

***gan y Parchedig E. Gwynne Parry, B.Min, Th.M, D.D. (Hon.), Heswall***

Ufuddhad i gais caredig Mrs Mair Rees Jones, ysgrifenyddes diwyd, a gweithgar eglwys Seion, Penbedw, yw'r pwt o erthygl a ganlyn. Gŵyr y cyfarwydd fy mod ers rhyw naw mlynedd, ar wahoddiad llawn perswâd y Parchg Ddr D. Ben Rees, Lerpwl, yn cael y fraint o dderbyn chwe pnawn Sul y flwyddyn i weinidogaethu i 'griw' tra ffyddlon a gwerthfawrogol Seion. 'Rwy'n hynod falch o'r cyfle hwn.

Gwelais olau dydd gyntaf mewn pentref nid anadnabyddus rhyw bedair milltir o Wrecsam a rhyw wyth milltir o Langollen. Pentref a adnabyddir fel y "pentref mwyaf yng Nghymru' ag iddi ddau o gorau meibion a chôr merched! Pentref glofäol y cyfeirir ati yn aml gyda'r frawddeg - ***"Beibl a rhaw i bobl y Rhos."***

Cefais fy magu ar aelwyd Gristionogol ac arfer y teulu fu mynychu oedfa bore a hwyr ac ysgol Sul y prynhawn. Fe'm haddysgwyd yn Ysgol Gynradd y Ponciau, Ysgol y Grango, ac Ysgol Ramadeg y Bechgyn, Rhiwabon, ble bu'r diweddar Brifardd a'r Cyn-Archdderwydd Geraint Bowen yn athro Cymraeg i mi, a'r diweddar Mr. J. T. Jones, M.A. (" .. heb os nac onibai", diacon ym Mhenuel, Rhos) yn Brifathro arnaf.

Yn y flwyddyn 1958, a minnau'n aelod ym Mhenuel, Capel y Bedyddwyr, ymdeimlais â galwad gref yr Arglwydd i gysegru fy hun i "gyflawn waith y weinidogaeth Gristionogol". Cefais fy nerbyn yn fyfyriwr i goleg yr enwad ym Manger. Fy maes gweinidogaethol cyntaf oedd cylch o bum eglwys gwledig yn ardal Llansannan. Treuliais ddau gyfnod yng nghylch Llansannan, cyn ymfudo fel petai "dros y ffin" i Kettering, Northampton. Yno y dechreuais astudio ymhellach gan lwyddo i ennill y graddau B.Min., Th.M., D.D. (er anrhydedd) a Ph.D trwy gymorth yr athrofau efengylaidd, Rhyngenedlaethol, y Drindod, a Dallas, yr Unol Daleithiau.

Yn eglwys enwog Ffordd Catrin, Plymouth, Dyfnaint, o ble yr hwyliodd y "Tadau Pereriniol" (Pilgrim Fathers) i'r Unol Daleithiau yn 1620, y dechreuodd fy niddordeb mewn Proffwydoliaeth Beiblaidd fagu adenydd yn gynnar yn fy neugeiniau pan glywais y diweddar Barch Arthur Neil, gweinidog y Bedyddwyr, Westward Ho, Dyfnaint, yn pregethu yn ein Cyrddau Mawr. Ef oedd y gŵr ddefnyddiodd Duw i ryddhau Doreen Irving o grafangau dewiniaeth. Edrydd Doreen yr hanes hwnnw yn ei llyfr gafaelgar - ***"From Witchcraft to Christ".*** Pregethodd Arthur Neil gydag awdurdod a chlaerineb ar thema'r 'Ail-ddyfodiad' gan gymryd detholiad o adnodau o'r bedwaredd bennod a'r hugain o Efengyl Mathew yn destun.

Y noson honno, llanwyd fy nghalon a chymaint o gwestiynau a chryn dipyn o gymhlethod. Yn ystod dyddiau'r coleg ym Mangor, cyfeiriwyd at Broffwydoliaeth Beiblaidd ac Escatoleg wrth "*fynd heibio"*, fel petai, heb roi unrhyw sylw arbennig i'r pynciau. Wedi clwwed Arthur Neil, penderfynais wybod mwy am yr hyn a ddysg y Beibl am "amserau'r diwedd". Bu'r ymchwiliad pellach y fodd i beri i mi, o argyhoeddiad dwfn, personol a gonest, newid rhai o'm daliadau Beiblaidd! OND stori ar gyfer amser i ddod fydd honno!

Bendithion lawer ar y "saint" yn Seion a Phresbyteriaid Glannau Mersi.

---

## *Dosbarth Dysgu Cymraeg Lerpwl*

Bob nos Lun dw i'n dysgu yn galed
Mae'r gwersi Cymraeg yn ddiarbed
Ar ôl y gwersi
Y peth gorau i fi
Yw'r sgwrs yn y gegin dros baned.

*Mike Farnworth*
*Allerton, Lerpwl*

---

***Gwahoddiad i holl Gymry'r Angor i noson lansio cyfrol newydd sbon Dr. D. Ben Rees***

# HANES RHYFEDDOL CYMRY LERPWL

***( Y Lolfa)***

**ar**

## Nos Fawrth, 26 Tachwedd, 2019

**am 7.30 o'r gloch yng Nghanolfan y Cymry, Capel Bethel, Heathfield Road, Lerpwl**
**(mynediad Auckland Road)**

**o dan nawdd Cymdeithas Cymry Lerpwl, Cymdeithas Lenyddol Bethel, a Changen Urdd Graddedigion Prifysgol Cymru.**

***Llywyddion:***
Roderick Owen (Llywydd Cymdeithas Cymry Lerpwl)
a Mrs Nan Hughes Parry (Is-lywydd y Gymdeithas Lenyddol)

***Gwahoddwyd Cantorion Bethel i gymryd rhan ac eraill i gyflwyno y gyfrol bwysig hon***

Rhifyn Tachwedd 2019.qxp_Layout 1 15/10/2019 11:55 Page 11

# Cwis Yr Angor Tachwedd 2019

(Derbyniodd y Golygydd dri llythyr yn gofyn iddo ail gychwyn ***Cwis yr Angor*** gan ei bod yn mwynhau hyn yn fawr. Dyma'r cwis am Dachwedd 2019 ar y llythyren **A**).

1. Enwch un tref lan y môr ym mae Ceredigion sydd yn cychwyn gyda'r llythyren A?
2. Beth oedd enw y dyn cyntaf sydd i'w ganfod yng ngardd Eden?
3. Enwch y dref a groesawa yr afon Tawe ac a fomiwyd yn erchyll yn yr Ail Ryfel Byd?
4. Etholaeth yng Ngwynedd sydd yn dechrau gyda'r llythyren A?
5. Beth oedd enw cyntaf y gŵr a sefydlodd y Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol yn 1948?
6. Beth yw'r llythyren gyntaf yn yr iaith Roeg? Ceir y gair yn Llyfr y Datguddiad.
7. Rhowch enw canol y Parchedig Ieuan A. Jenkins, Waterloo, Lerpwl (Ysgrifennydd cyntaf Pwyllgor Gwaith Yr Angor)?
8. Ym mha dref y lleolir y Llyfrgell Genedlaethol?
9. Ym mha dref yng Ngogledd Cymru y lleolir Capel Mynydd Seion?
10. Ym mha dref y bu'r Parchedigion Cwyfan Hughes a Richard Williams yn gweinidogaethu am flynyddoedd?
11. Beth oedd enw Ynys y Brenin Arthur?
12. Beth yw'r enw Cymraeg am *Apple*?
13. Ym mha dref yn Sir Benfro y bu y llenor D. J. Williams yn athro ysgol?
14. Ym mha dref lofaol y ganwyd y bocsiwr Dai Dower?
15. Rhowch enw cyntaf y gwleidydd Mr. Jenkins, tad Roy Jenkins?
16. Enwch afon yn Bryste sydd yn llifo gyda'r enw A……?
17. Llenwch yr adnod: Dyna wna llygaid yr …………i dderbyn y weddi ar ran Israel (Nehemiah!)
18. Beth a wna y cystadleuydd ar lwyfan yr eisteddfod wrth lefaru darn o farddoniaeth?
19. Beth yw'r enw llawn am y Fenni?
20. Beth oedd enw cyntaf ……… Surridge, Hyrwyddwr Ifanc Newid Hinsawdd Cymru yn y flwyddyn 2009?

**Anfonwch eich ymgais i'r Golygydd erbyn 1 Tachwedd neu llenwch ef adref gan ddangos eich campwaith i'ch cyfeillion.**
**Gwobr o £20 i'r buddugol – sydd yn cael 40 o bwyntiau.**

YR ANGOR
PAPUR CYMRY GLANNAU MERSI

## 1985 - 86

***Golygydd:***
Y Parchedig Ddr. D. Ben Rees
32 Garth Drive, Liverpool L18 6HW
(Ffôn: 051-724-1989)

***Cadeirydd:***
Humphrey Wyn Jones,
36 Wheatcroft Road, Liverpool 18

***Panel Golygyddol:***
Mr. Walter Rees Jones, Penbedw
Mrs. Eira Wyn Hughes, Trefebin
Mr. Alun Roberts, Woolton
Mr. Trefor Roberts, Parc Sefton

***Trysorydd***:
Mr. J. Alun Edwards, B.A.,
"Glan Aber", 29 Channel Reach,
Blundellsands, Liverpool 23

***Trefnydd Hysbysebion a Dosbarthu:***
Mr. Hugh J. Jones,
23 Centreville Road, Liverpool 18

***Trefnydd Busnes a Thanysgrifiadau:***
J. Alun Hughes,
44 Romer Road, Liverpool 6

***Ysgrifennydd a Goruchwyliwr:***
Y Parchedig Ieuan A. Jenkins,
30 Ringwood Avenue, Waterloo,
Liverpool 22

---

Dyma gynheiliaid ***Yr Angor*** dros 30 mlynedd yn ôl, a sylwer ar y tîm yr adeg honno. Yr unig un sydd yn ein plith o hyd yw'r Golygydd a talwn deyrnged haeddiannol i'r naw arall sydd ymhlith y 'cwmwl tystion'.

Braf oedd cael eu cwmni, eu cefnogaeth a'u cyfraniad. Melys yr atgofion am y Cymry cadarn hyn a gyfrannodd mor helaeth i'n presennol.

***– Golygydd***

# DIDDANWYR A'R DYSGADWYR



*Cwis Cymdeithas Lenyddol yn nwylo Anne M. Jones*



*Robert Parry, Pat Williams, Meirion Evans a Devida Broadbent yn chwilio am yr ateb*



*Enillwyr y Cwis (Tîm A) – Elan Jones, Nan Hughes Parry, Enid Pierce, Norma Owen, Anne M. Jones (Cwis feistr), Roderick Owen a John Williams*

Tynnwyd y lluniau gan Dr. John G. Williams



*John Ogwen a Maureen Rhys yn datgelu cyfrinachau Kate Roberts a Saunders Lewis*



*Billy Thompson o'r Bala a'i ffidil*